

Bwletin Awdurdod S4C **- Gorffennaf 2001**

Aelodau'r Awdurdod

Adroddwyd nad oedd unrhyw newyddion pellach i adrodd parthed penodiad y ddau Aelod newydd. Fe fyddai'r Ysgrifennydd yn cysylltu â'r Cynulliad a'r Adran Ddiwylliant, Cyfryngau a Chwaraeon DCMS yn yr wythnos i ddod i weld lle'r oedd pethau wedi cyrraedd.

Seremoni Gwobrwyo BAFTA Cymru

Mynegwyd llongyfarchiadau i bawb yn gysylltiedig â chomisiynau S4C wnaeth ennill enwebiadau ac yn wir wnaeth ennill gwobrau ar y noson. Roedd yn dda i weld y gwobrau wnaeth *Solomon a Gaenor* ennill, gan gynnwys y wobwr am y brif ffilm.

Y Ddeddf Gyfathrebu

Adroddwyd na fyddai yna ddeddfwriaeth lawn ar y drefn gyfathrebu newydd yn y sesiwn hyn o'r Senedd; yn hytrach fe fyddai yna Fesur i baratoi'r ffordd. Cytunwyd y byddai'n bwysig i S4C geisio sicrhau bod y Mesur yn cynnwys yr hyn yr oedd yn dymuno gweld yn y Ddeddf derfynol. Cyfeiriwyd at y ffaith bod yna gysylltiad eisoes wedi bod rhwng y Cadeirydd â Kim Howells, AS, y Gweinidog newydd yn y DCMS yn gyfrifol am ddarlledu, ffilm a thwristiaeth. Roedd Dr Howells wedi ffonio cyn Araith y Frenhines roi awgrym o'r cynnwys ym maes darlledu. Yn ogystal, roedd trefniadau wedi'u gwneud i Kim Howells ymweld ag S4C ar 10 Gorffennaf 2001 er mwyn medru trafod sefyllfa S4C mewn mwy o ddyfnder.

Lawns Adroddiad Blynyddol 2001

Adroddwyd bod yr Adroddiad Blynyddol wedi'i lansio y diwrnod cynt. Cynhyrchwyd y ddogfen yn fewnol a chytunwyd ei fod yn lliwgar ac yn llawn gwybodaeth. Roedd rhai adrannau wedi'u ehangu i gymharu â'r flwyddyn cynt, er enghraifft, rhoddwyd mwy o wybodaeth am y gweithgaredd tu ôl i raglenni, yn enwedig gweithgareddau masnachol. O ran y sylw a roddwyd i'r Adroddiad Blynyddol yn y cyfryngau credwyd bod y sylw a gafwyd wedi bod yn weddol gytbwys.

Rhestr Anrhydeddau

- (a) Mynegodd yr Aelodau longyfarchiad gwresog i'r Cadeirydd ar ei hanrhydedd CBE. Cytunodd yr holl Awdurdod fod hwn yn glod haeddiannol a gwych.
- (b) Nodwyd â phleser hefyd fod Roy Noble, cyfrannydd rheolaidd i raglenni S4C, wedi derbyn OBE.

Adolygu Strategaeth

Cyfeiriwyd at ddymuniad yr Awdurdod yn y cyfarfod diwethaf i gynnal trafodaeth strategol y mis hwn. Nodwyd y bu rhaid gohirio 'diwrnod i ffwrdd' y Tîm Rheoli y bwriadwyd ei gynnal yn y cyfamser oherwydd pwysau gwaith y broses gomisiynu. Serch hyn, credwyd iddi ddal i fod yn fuddiol i gael trafodaeth gychwynnol ar strategaeth S4C i'r dyfodol. Cafwyd trafodaeth hir ac eangfrydig ond ni ddaethpwyd at unrhyw gasgliadau pendant. Teimlwyd bod y drafodaeth wedi mynd mor bell ag y gellid ei chymryd ar hyn o bryd. Byddai sylwadau'r Awdurdod yn werthfawr fel sail i drafodaethau strategol y Tîm Rheoli. Yn ogystal, efallai byddai pethau ychwanegol i'w trafod ar ôl y cyfarfod gyda Kim Howells, AS.

Nawdd

Trafododd Aelodau'r Awdurdod fanylion tri chais am nawdd oedd gerbron. Cytunwyd y dylid rhoi nawdd fel a ganlyn:

- (i) £5,000 tuag at y British Animation Awards 2002
- (ii) £5,000 tuag at wyl ddrama Cymdeithas Ffermwyr Ifanc
- (iii) £15,000 tuag at dderbyniad agoriadol Gwyl Teledu Caeredin.

Rygbi

Fe wnaeth Aelodau'r Awdurdod longyfarch swyddogion S4C ar y gamp ardderchog o ennill hawliau i gemau taith y Llewod. Wrth gydnabod y llongyfarchiadau hyn, dywedodd y Cyfarwyddwr Rhaglenni taw Gareth Davies, heb os, oedd yn haeddu'r clod; roedd ei gyfraniad yn ystod y trafodaethau wedi bod yn amhrisiadwy ac yr oedd wedi gwneud gwaith ardderchog.

Adroddiad ar y Gwasanaeth Rhaglenni

Derbyniwyd yr adroddiad ar y gwasanaeth rhaglenni. Yn bennaf, er hynny, trafodwyd y gwaith oedd yn dal i fynd yn ei flaen parthed y broses gomisiynu. Byddai'r comisiynau yn cael eu cyhoeddi ar 26 Gorffennaf.

Gôl

Trafodwyd y sefyllfa yn dilyn mynegiad y BBC ei fod yn bwriadu dod â Gôl i ben. Cyfeiriwyd y ffaith mai gan y BBC oedd yr hawliau i gemau pêl-droed Cynghrair Cymru ac felly ni fyddai neb arall yn gallu cynnig darllediad o'r gemau hyn. Er hynny, yr oedd yna drafodaeth i'w chael ar gyfer y dyfodol ynglyn â chyfrifoldeb S4C fel darlledwr cyhoeddus i ddangos gemau pêl-droed yng Nghymru.

Cadeiryddiaeth y Pwyllgor Archwilio

Adroddodd y Cadeirydd fod Ms Janet Lewis-Jones wedi cynnig sefyll i lawr fel cadeirydd y Pwyllgor Archwilio. Y rheswm dros hyn oedd y byddai cyfnod Ms Lewis-Jones ar Awdurdod S4C yn dod i ben ddiwedd Ionawr 2001 a chredodd y byddai'n fuddiol i gadeirydd newydd ddechrau yn y swydd nawr tra byddai hi yn dal i fod ar gael i gynnig cyngor a gwybodaeth. Roedd Cadeirydd S4C, felly, wedi gwahodd Mr Huw Wynne-Griffith i gymryd cadeiryddiaeth y Pwyllgor Archwilio yn sgil ei arbenigedd yn y maes arbennig hwn. Roedd Mr Wynne-Griffith wedi derbyn y gwahoddiad a byddai'n cychwyn ar y gwaith ym mis Gorffennaf.

Cyflwyniad gan y Cyfarwyddwr Rheoli Sianelau

Derbyniwyd cyflwyniad gan y Cyfarwyddwr Rheoli Sianelau. Esboniwyd fod ei adran yn gyfrifol am y gwasanaeth cyflwyno; y We/Rhynggrwyd; Teletestun a'r Llyfrgell. Rhoddwyd sylw penodol i waith yr uned gyflwyno. Dangoswyd esiampl o siediwyl ar gyfer un noson o wyllo a gwelwyd yr holl waith manwl oedd tu ôl i bob un siediwyl. Soniwyd hefyd am y problemau roedd yr adran yn gorfod delio â nhw gyda gwrthdaro rhwng rhaglenni S4C a Channel 4, e.e. y criced yn rhedeg ymlaen hwyr y pawns ac i mewn i'r adeg pan dylai *Heno* gael ei darlledu. Cyfeiriwyd hefyd at y pethau a allai fynd o le e.e. colli hysbysebion, colli trêls, rhoi'r linc anghywir neu redeg yn hwyr – yr uchelgais oedd i gynnig gwasanaeth o'r safon uchaf bosibl, lle nad oedd gweithgaredd yr adran yn weladwy i neb. Diolchwyd i'r Cyfarwyddwr Rheoli Sianelau am ei gyflwyniad a wnaeth roi darlun mwy clir o gyfrifoldebau yr adran weddol newydd hon

Materion Eraill Gwybodaeth

Nyn ogystal, trafodwyd neu nodwyd materion canlynol:

- Adroddiad Ariannol
- Adroddiad Chwarterol Rheolwr Gyfarwyddwr S4C Masnachol
- Adroddiad Ymchwil
- Adroddiad y Prif Weithredwr – Materion er gwybodaeth
- Adroddiad Cwynion
- Adroddiad a chofnodion cyfarfod y Grwp Cydymffurfiaeth a gynhaliwyd ar 15 Mehefin 2001
- Adroddiad y Wifren Gwylwyr.